

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Mawrth 3ydd, 2015

Presennol: Alwyn Roberts (yn y gadair), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Heledd Jones, Karl Jones, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

- 1408 Estynnodd Alwyn Roberts groeso cynnes i bawb a derbyniwyd ymddiheuriadau Dewi Jones, Alan Jones Evans ac Arwel Lloyd Jones.
- 1409 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar faterion ar yr Agenda.
- 1410 Derbyniwyd datganiadau buddiant oddi wrth Alwyn Roberts, Huw P Roberts, Huw Antur a Beryl Hughes Griffiths ar eitem 1416iii, sef ystyried cyfraniadau at fudiadau; hefyd datganodd Huw Antur a Beryl Hughes Griffiths fuddiant fel aelodau o Sylfeini ym mater 1417ii, sef adroddiad o gyfarfod Sylfeini.
- 1411 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Chwefror 3ydd 2015.
- 1412 Nid oedd materion yn codi o'r Cofnodion nad oedd eisoes ar yr Agenda.
- 1413 Cadarnhawyd trefniadau'r Noson Goffi ar 10/3/15 a derbyniwyd cyfraniadau'r Cynghorwyr. Cytunwyd i gynnal y Noson Goffi ar adeg arall o'r flwyddyn yn y dyfodol.
- 1414 Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir trwy e-bost. Soniodd am ei ymdrechion wrth Y Bont Newydd. Roedd hefyd wedi cynnal trafodaethau parthed safle ailgylchu cymunedol cyffordd Cwm Croes a Chwm Union. Datgelodd y bydd loriau pwrpasol yn cael eu defnyddio i geisio atal y broblem o sbwriel yn chwythu o gefn y lori ailgylchu.
- 1415 Materion Eiddo'r Cyngor**
- i. Rhoddwyd ystyriaeth i'r difrod a wnaed yn ddiweddar i wal Nyrs y fynwent a chytunwyd i ymholi ymhellach i sicrhau fod y gwaith trwsio yn cael ei wneud.
 - ii. Cytunwyd i gynnull Is bwyllgor y Fynwent i drefnu'r modd o ddewis torwyr beddau i'w rhoi ar restr y Cyngor fel rhai cymwys i wneud gwaith ym mynwent y Cyngor Cymuned.
 - iii. Cytunwyd i Is-bwyllgor y fynwent roi ystyriaeth i'r groes bren a osodwyd yn y fynwent yn ddiweddar.
 - iv. Cafwyd trafodaeth ar Gwt yr Hers a chyfarwyddwyd y Clerc i holi am ei werth tebygol.
 - v. Derbyniwyd adroddiad llafar ar fater perchnogaeth y tir ar ddwy ochr i'r Bont Newydd dros Afon Lliw.

1416 Materion ariannol

- i. Derbyniwyd adroddiad o'r sefyllfa ariannol.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Dewi Jones

- ii. Cyfarwyddwyd y Swyddog Ariannol i dalu anfonebau'r mis ac i ysgrifennu llythyr at British Gas gan fynegi parodrwydd y Cyngor i dalu'r bil ar y raddfa a gytunwyd arno.
- iii. Trafodwyd tendrau torri gwair yn y fynwent a chytunwyd i dderbyn y pris isaf.
- iv. Ystyriwyd ceisiadau am gefnogaeth tuag at fudiadau. Cytunwyd i gyfrannu fel a ganlyn:

Clwb Pêl Droed Llanuwchllyn	£150
Neuadd bentref	£700
Teulu Gwalia	£50
Adran bentref	£180
Llên y Llannau	£50
Sioe Amaethyddol Llanuwchllyn	£50
Canolfan Y Plase	£75
Eisteddfod Gylch Penllyn	£100
CFFI Meirionnydd	£150
Prosiect trosglwyddo cynradd/uwchradd	£50
Theatr Bara Caws	£100
Eisteddfod Genedlaethol	£55
Canolfan yr Henblas	£294

1417 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned

- i. Cytunwyd i wahodd cynrychiolwyr o Rheilffordd Llyn Tegid i gyflwyno'u cynlluniau i gyfarfod nesaf y Cyngor. Cynigwyd i estyn gwahoddiad i Gyngor Cymuned Llangywer fynychu hefyd.
- ii. Derbyniwyd adroddiad o gyfarfod Sylfeini gan Huw Antur. Soniodd fod Cynefin yn dymuno prynu tir gyda chaniatâd adeiladu arno ym Maesypandy oddi wrth Cyngor Gwynedd er mwyn diogelu'r safle. Nid oes unrhyw fwriad i adeiladu yno ar hyn o bryd gan nad oes galw. Maes diddordeb Cynefin yw cartrefi fforddiadwy yn hytrach na chartrefi cymdeithasol.
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth fod clirio ffosydd ym Mhenantlliw rhan o raglen waith Adran y Priffyrdd.

1418 Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr; rhannwyd gwybodaeth am y cyfarfod gyda Dyfed Edwards (9/3/15 yng Nghanolfan Henblas); derbyniwyd copi o'r Cytundeb gyda Chyngor Gwynedd.

1419 Gohebiaeth: Parc: NP5/71119F CYMERADWYWYD adnewyddu caniatâd mast Drws y Nant.

Gwynedd:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am ymgynghoriad ar Gynllun Datblygu Gwynedd a Môn.
- ii Derbyniwyd newyddlen Gaeaf Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd.

Llywodraeth Cymru: Trafodwyd Arolwg Strategaeth Hyfforddiant Genedlaethol Arfaethedig.

SYLWER: dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 14/4/15